Rhaid rhoi cyfle i blant a phobl ifanc drafod unrhyw fater sy'n eu poeni

Rhaid annog plant a phobl ifanc i deimlo'n gyfforddus ac yn ddigon sensitif i dynnu sylw at agweddau neu ymddygiad nad ydynt yn eu hoffi

Rhaid osgoi sefyllfaoedd all beryglu eich perthynas gyda pherson ifanc. Fel gweithiwr / gwirfoddolwr ieuenctid mae yn erbyn y gyfraith i chi gael perthynas rywiol gydag aelod o dan 18 oed

Rhaid cofio y gallai rhywun arall gamddehongli eich gweithredoedd, er cystal y bwriad

Rhaid cydnabod bod angen gofal ar adegau sensitif wrth drafod a chynghori ar faterion megis bwlio, profedigaeth neu gam-drin

Rhaid gweithredu egwyddorion ac ethos Urdd Gobaith Cymru

Peidiwch ag anghofio bod cefnogaeth ar gael gan staff proffesiynol Urdd Gobaith Cymru

Ffôn – **01970 613100**

Ar y we – **urdd.org**

urdd.org

Côd Ymddygiad Urdd Gobaith Cymru

urdd.org

Rhaid annog y Gymraeg ym mhob digwyddiad

Rhaid trin pawb gyda pharch

Rhaid rhoi esiampl o ymddygiad da yr hoffech i eraill ei ddilyn

Rhaid cynllunio gweithgareddau gan sicrhau fod mwy nag un oedolyn yn bresennol neu o leiaf mewn clyw neu yng ngolwg eraill

Rhaid parchu hawl person ifanc i breifatrwydd personol

Rhaid rhoi cyfle i blant a phobl ifanc fynegi eu barn a chyfrannu at benderfyniadau

Rhaid sicrhau trefniadau cysgu ar wahân i arweinyddion a phlant a phobl ifanc

Peidiwch â chaniatáu gweithgareddau dilornus ymhlith aelodau (e.e.defodau derbyn, dilorni eraill, bwlio)

Peidiwch â bod yn rhan o gemau corfforol gyda phlant a phobl ifanc

Peidiwch â chael cyswllt corfforol na llafar amhriodol gyda phlant a phobl ifanc

Peidiwch â neidio i gasgliadau am bobl eraill heb wneud yn siŵr o'r ffeithiau

Peidiwch â chaniatáu cael eich denu gan ymddygiad sy'n tynnu sylw amhriodol megis pwl o dymer ddrwg neu "crysh"

Peidiwch â dangos ffafriaeth tuag at unrhyw unigolyn

Peidiwch â gwneud sylwadau nac arwyddion awgrymog o flaen plant a phobl ifanc

Peidiwch â gadael i amheuon, datgeliadau neu gyhuddiadau o gam-drin fynd heb eu cofnodi neu eu cyfeirio (gweler canllawiau Diogelu Plant Urdd Gobaith Cymru)

Peidiwch â chredu "na all hyn byth ddigwydd i mi"